



Llywodraeth Cymru

Dogfen Ymgynghori

Bil Drafft Iechyd y Cyhoedd (Isafbris Alcohol) (Cymru) a Memorandwm Esboniadol



Dyddiad cyhoeddi: **15 Gorffennaf 2015**

Camau i'w cymryd: Ymatebion erbyn **11 Rhagfyr 2015**

Trosolwg

Mae'r ymgynghoriad hwn yn nodi cynigion deddfwriaethol drafft Llywodraeth Cymru i gyflwyno isafbris uned gorfodol ar gyfer alcohol sy'n cael ei werthu neu ei gyflenwi yng Nghymru. Mae **Bil Drafft Iechyd y Cyhoedd (Isafbris Alcohol) (Cymru)** yn cynnig gosod pris isaf ar gyfer uned o alcohol.

Sut i ymateb

Gallwch ymateb i'r ymgynghoriad hwn drwy lenwi'r ffurflen ymateb/arolwg ymgynghori sydd ar gael ar ein gwefan (<http://gov.wales/consultations/?skip=1&lang=cy>). Gellir dychwelyd ffurflenni atom drwy'r e-bost yn: MUPBill@cymru.gsi.gov.uk cyn 11 Rhagfyr 2015.

Fel arall, llenwch y ffurflen ymateb i'r ymgynghoriad sydd ar ddiwedd y ddogfen hon a'i dychwelyd atom yn y post:

Tîm Bil Iechyd y Cyhoedd (Isafbris Alcohol)
(Cymru)
Is-adran Iechyd y Cyhoedd
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

Rhagor o wybodaeth a dogfennau cysylltiedig

Gellir gwneud cais am fersiynau o'r ddogfen hon mewn print bras, mewn Braille neu mewn ieithoedd eraill.

Manylion cyswllt

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â:

Tîm Bil Iechyd y Cyhoedd (Isafbris Alcohol)
(Cymru)
Is-adran Iechyd y Cyhoedd
Pedwerydd Llawr
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

E-bost: MUPBill@cymru.gsi.gov.uk

Diogelu data

Sut y byddwn yn defnyddio'r farn a'r wybodaeth a roddwch inni

Bydd unrhyw ymateb a anfonwch atom yn cael ei weld yn llawn gan staff Llywodraeth Cymru sy'n gweithio ar y materion y mae'r ymgynghoriad hwn yn ymdrin â nhw. Mae'n bosibl y bydd aelodau eraill o staff Llywodraeth Cymru yn gweld yr ymateb hefyd, er mwyn eu helpu i gynllunio ymgynghoriadau ar gyfer y dyfodol.

Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion i'r ddogfen hon. Mae'n bosibl hefyd y byddwn yn cyhoeddi'r ymatebion yn llawn. Fel arfer, bydd enw a chyfeiriad (neu ran o gyfeiriad) yr unigolyn neu'r sefydliad a anfonodd yr ymateb yn cael eu cyhoeddi gyda'r ymateb. Mae hynny'n helpu i ddangos bod yr ymgynghoriad wedi'i gynnal yn briodol. Os nad ydych yn dymuno i'ch enw a'ch cyfeiriad gael eu cyhoeddi, rhowch wybod i ni yn ysgrifenedig wrth anfon eich ymateb. Byddwn wedyn yn cuddio'ch manylion.

Mae'n bosibl y bydd yr enwau a'r cyfeiriadau y byddwn yn eu cuddio yn cael eu cyhoeddi'n ddiweddarach, er nad yw hynny'n debygol o ddigwydd yn aml iawn. Mae Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004 yn caniatáu i'r cyhoedd gael gweld gwybodaeth a gedwir gan lawer o gyrff cyhoeddus, gan gynnwys Llywodraeth Cymru. Mae hynny'n cynnwys gwybodaeth sydd heb ei chyhoeddi. Fodd bynnag, mae'r gyfraith hefyd yn caniatáu i ni gadw gwybodaeth yn ôl dan rai amgylchiadau. Os bydd unrhyw un yn gofyn am gael gweld gwybodaeth a gadwyd yn ôl gennym, bydd rhaid inni benderfynu a ydym am ei rhyddhau ai peidio. Os bydd rhywun wedi gofyn inni beidio â chyhoeddi ei enw a'i gyfeiriad, bydd hynny'n ffaith bwysig i ni ei chadw mewn cof. Fodd bynnag, fe allai fod rheswm pwysig dros orfod datgelu enw a chyfeiriad unigolyn, er ei fod wedi gofyn i ni beidio â'u cyhoeddi. Byddem yn cysylltu â'r unigolyn ac yn gofyn am ei farn cyn gwneud unrhyw benderfyniad terfynol i ddatgelu'r wybodaeth.

Rhagair gan y Dirprwy Weinidog Iechyd.....	4
Cyflwyniad – beth y mae'r ymgynghoriad yn ymdrin ag ef?.....	6
Gweithio i wella iechyd.....	6
Cefndir i isafbris alcohol	8
Pam yr ydym o'r farn y bydd cyflwyno isafbris alcohol yng Nghymru yn gwneud gwahaniaeth.....	9
Y ddeddfwriaeth newydd arfaethedig.....	10
Cwestiynau ymgynghori.....	11
- Polisi Cyffredinol.....	11
- Cydraddoldeb – yr effeithiau ar wahanol grwpiau mewn cymdeithas.....	15
- Plant a Phobl Ifanc.....	15
- Adrannau ym Mil Drafft Iechyd y Cyhoedd (Isafbris Alcohol) (Cymru).....	16
Ffurflen ymateb i'r ymgynghoriad.....	24

Rhagair gan y Dirprwy Weinidog Iechyd

Mae alcohol yn parhau i achosi llawer iawn o farwolaeth a salwch yng Nghymru; gall arwain at lawer o niwed i iechyd ac i'r gymdeithas, yn enwedig i leiafswm sylweddol o bobl sy'n goryfed.

Er ei bod yn bosibl bod yfed lefelau isel o alcohol yn fuddiol i iechyd wrth ddiogelu yn erbyn rhai cyflyrau meddygol penodol, rydym yn gwybod bod tystiolaeth gymhellol, wedi ei chasglu dros ddegawdau lawer o ymchwil, sy'n dangos bod yfed gormod o alcohol yn achosi niwed.

Mae alcohol yn cyfrannu at fwy na chwe deg o gyflyrau iechyd ac mae llawer o bobl sy'n dioddef o gyflyrau megis strôc, clefyd y galon a phwysedd gwaed uchel yn wynebu risg uwch o lawer o wneud niwed pellach i'w hiechyd o ganlyniad i oryfed alcohol. Mae alcohol hefyd yn gyfrifol am lawer o farwolaethau cynnar eraill, gan gynnwys hunanladdiad.

Er y bu llai o farwolaethau yn gysylltiedig ag alcohol yn 2013 o'i gymharu â 2012, bu farw 467 o bobl o ganlyniad i alcohol yng Nghymru, a byddai modd osgoi pob un ohonynt. Ar y cyfan, amcangyfrifir bod camddefnyddio alcohol yng Nghymru yn costio tua £109 miliwn¹ i'r gwasanaeth iechyd bob blwyddyn mewn derbyniadau i ysbytai yn unig.

Mae alcohol yn niweidio'r unigolion dan sylw, ond gall effeithio hefyd ar eu teuluoedd, gwasanaethau cyhoeddus a'r cymunedau y maent yn byw ynddynt. Drwy weithio gyda'n partneriaid a'n rhanddeiliaid, mae Llywodraeth Cymru wedi sefydlu cyfres o gamau a mentrau i fynd i'r afael â'r amryfal ac amrywiol broblemau sy'n gysylltiedig â chamddefnyddio alcohol, ond mae'n amlwg bod angen gwneud mwy.

Mae fforddiadwyedd alcohol wedi cynyddu'n sylweddol dros y ddau ddegawd diwethaf. Canfu astudiaeth annibynnol a baratowyd ar gyfer y Comisiwn Ewropeaidd² fod tystiolaeth yn Ewrop yn cefnogi'r cysylltiad rhwng pris alcohol, incwm, fforddiadwyedd a'r defnydd ohono, a'r cysylltiad uniongyrchol rhwng pris alcohol/incwm a niwed. Ar ben hyn, dangosodd fod alcohol wedi dod 50% yn fwy fforddiadwy yn y DU rhwng 1996 a 2004, yn bennaf o ganlyniad i dwf mewn incwm gwario.³

¹ Gweler yr esboniad am y ffigur hwn ar t34 o'r Memorandwm Esboniadol

² Rabinovich, L et al., *The affordability of alcoholic beverages in the European Union: Understanding the link between alcohol affordability, consumption and harms* (cynhaliwyd gan RAND Europe)

³ Ibid, t27

Un o'r camau mwyaf effeithiol sydd ar gael i lywodraethau yw rheoli pris a fforddiadwyedd alcohol ac felly mae Llywodraeth Cymru yn sicr bod ymyriad o ran prisiau yn rhan allweddol o unrhyw strategaeth gynhwysfawr i fynd â'r afael â chamddefnyddio alcohol.

Mae tystiolaeth arbennig o dda bod isafbris uned ar gyfer alcohol yn cael effaith gadarnhaol ar niwed i iechedd a'r gymdeithasol, a'r unigolion hynny sy'n yfed alcohol ar lefelau niweidiol neu beryglus a fyddai'n elwa fwyaf o fesur o'r fath.

Yn rhinwedd fy swydd fel Dirprwy Weinidog Iechyd â chyfrifoldeb penodol dros gamddefnyddio sylweddau, rwyf yn ymroddedig i leihau niwed sy'n gysylltiedig ag alcohol yng nghyd-destun gwella iechedd a lles pobl yng Nghymru. Mae camddefnyddio alcohol yn parhau yn un o'r ffyrdd mwyaf dinistriol y gall unigolion niweidio eu hunain, eu teuluoedd a'r cymunedau y maent yn byw ynddynt. Mae cefnogi pobl i leihau'r niwed hwn, ac yn y pen draw, eu galluogi i ddychwelyd i fywyd heb ddibyniaeth ar alcohol neu heb ei ddefnyddio'n niweidiol yn nod allweddol o'n Strategaeth Camddefnyddio Sylweddau, *"Gweithio Gyda'n Gilydd i Leihau Niwed"*.

Gan ategu ein hymgyngghoriad cynharach ar y mater hwn yn rhan o Bapur Gwyn Iechyd y Cyhoedd, hoffwn glywed eich barn ar ein bwriad i gyflwyno isafbris uned ar gyfer alcohol a'r cynigion deddfwriaethol penodol a amlinellir ym Mil Drafft Iechyd y Cyhoedd (Isafbris Alcohol) (Cymru), ynghyd â'r dystiolaeth a'r asesiadau effaith a nodir yn y Memorandwm Esboniadol sy'n cyd-fynd ag ef.

Vaughan Gething AC
Dirprwy Weinidog Iechyd

Cyflwyniad – beth y mae'r ymgynghoriad yn ymdrin ag ef?

1. Mae Llywodraeth Cymru yn ymgynghori ar Fil drafft, sy'n cynnig gosod isafbris uned ar gyfer alcohol yng Nghymru.
2. Mae'r Bil drafft yn cynnig ei gwneud yn drosedd i fanwerthwr alcohol werthu neu gyflenwi alcohol am bris sy'n is na'r isafbris uned a bennir yng Nghymru. Bydd Gweinidogion Cymru yn pennu lefel yr isafbris uned mewn rheoliadau. Bydd y cynigion yn sefydlu cyfres o droseddau a chosbau ac yn darparu pwerau a dyletswyddau ychwanegol i awdurdodau lleol i'w galluogi i weithredu a gorfodi'r system isafbris uned a gynigir.
3. Mae'r ymgynghoriad hwn yn ceisio'ch barn am y rhesymeg a'r dystiolaeth sy'n cefnogi cyflwyno deddfwriaeth newydd i Gynulliad Cenedlaethol Cymru.
4. Dylid darllen y ddogfen hon ynghyd â'r Bil drafft a'r Memorandwm Esboniadol sy'n cyd-fynd ag ef, gan gynnwys yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol. Rydym hefyd yn croesawu safbwyntiau ar yr asesiadau effaith statudol drafft ar gydraddoldeb, hawliau plant a'r iaith Gymraeg sy'n rai o'r gyfres o ddogfennau sy'n rhan o'r ymgynghoriad hwn.

Gweithio i ddarparu gwelliannau iechyd

5. Nod barhaus Llywodraeth Cymru yw gwella iechyd a lles pobl yng Nghymru, ac wrth wneud hynny mae'n gofyn am safbwyntiau aelodau o'r cyhoedd, partneriaid allweddol a rhanddeiliaid er mwyn sicrhau'r dulliau mwyaf effeithlon ac effeithiol o ddarparu'r gwelliannau hynny.
6. Er bod y rhan fwyaf o bobl sy'n mwynhau yfed alcohol yn gwneud hynny'n gyfrifol ac o fewn terfynau diogel, mae nifer sylweddol o bobl nad ydynt yn gwneud hynny.
7. Er mwyn lleihau'r niwed i'r bobl hynny sy'n goryfed alcohol a lleihau'r effaith ar eu teuluoedd a'r gymuned ehangach, rydym wedi bod yn gweithio i gyflwyno amrywiaeth o gamau anneddfwriaethol sydd wedi canolbwyntio ar addysg well, atal a thriniaeth. Ceir rhai enghreifftiau o'r math o bolisiau a rhaglenni y mae Llywodraeth Cymru wedi eu rhoi ar waith ym mharagraffau 32-51 o'r Memorandwm Esboniadol.
8. Mae'r camau hyn yn rhan o strategaeth camddefnyddio sylweddau 10 mlynedd Llywodraeth Cymru sydd â'r nod o fynd i'r afael â'r niwed sy'n gysylltiedig â chamddefnyddio alcohol, cyffuriau a sylweddau eraill – 'Gweithio

Gyda'n Gilydd i Leihau Niwed'. Lansiodd y strategaeth hon yn 2008⁴, ac mae'n seiliedig ar gynllun cysylltiedig, sef Cynllun Cyflawni Camddefnyddio Sylweddau 2013 -15.⁵

9. Fodd bynnag, er gwaethaf y cynnydd a wneir i leihau lefelau defnydd alcohol cyffredinol o ganlyniad i gamau a gymerir gan Lywodraeth Cymru, ei phartneriaid (gan gynnwys Llywodraeth y DU) a'r diwydiant, mae goryfed alcohol yn parhau i achosi problemau sylweddol ledled Cymru.

10. Dangosodd data a gasglwyd gan Arolwg Iechyd Cymru yn 2014 fod 40% o oedolion yn nodi eu bod yn yfed mwy na'r canllawiau diogel o leiaf un diwrnod yr wythnos a 24% yn nodi eu bod yn goryfed mewn pyliau – sef yfed mwy na dwywaith y canllawiau dyddiol.

11. Mae proffil Alcohol ac Iechyd yng Nghymru 2014 Arsyllfa Iechyd Cyhoeddus Cymru yn cadarnhau bod yfed ymhlith plant a phobl ifanc yn parhau i fod yn bryder, gyda 17% o fechgyn a 14% o ferched 11-16 oed yng Nghymru yn yfed alcohol o leiaf unwaith yr wythnos (sy'n fwy nag yn yr Alban, Iwerddon a Lloegr).

12. Bu cynnydd cyffredinol yng nghyfraddau derbyniadau i ysbytai yn benodol oherwydd alcohol (h.y. y rhai hynny sy'n ymwneud yn gyfan gwbl ag alcohol, er enghraifft clefyd yr afu sy'n gysylltiedig ag alcohol neu orddos o alcohol) o tua 400 fesul 100,000 o'r boblogaeth yn 2001-2002 i ryw 500 fesul 100,000 o'r boblogaeth yn 2006-2007. Bu hefyd 15,100 o dderbyniadau i ysbytai yn benodol oherwydd alcohol yng Nghymru yn 2012/13.⁶

13. Ar 12 Mai 2015, cyhoeddodd y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd adroddiad cynhwysfawr o'r enw "*Tackling Harmful Alcohol Use*"⁷. Mae pennod 4 o'r adroddiad hwnnw'n nodi bod dull wedi ei dargedu o bolisiau isafbris uned yn ganolog i'r ddadl am alcohol mewn sawl gwlad sy'n rhan o'r Sefydliad, ac mae tystiolaeth yn awgrymu bod gan isafbris uned fwy o botensial i rwystro yfwyr niweidiol a pheryglus na threthu gan ei fod yn targedu'r grwpiau hynny'n benodol. Mae'r adroddiad yn honni hefyd bod yfed niweidiol yn cynyddu ymhlith pobl ifanc a menywod yng ngwledydd y Sefydliad.

⁴<http://www.substancemisuseworkforcewales.org/resources/publications/workingtogether/?skip=1&lang=cy>

⁵ <http://www.ccinform.co.uk/key-documents/working-together-to-reduce-harm-substance-misuse-delivery-plan-2013-2015/>

⁶ Substance Misuse Programme. Reading between the lines: the annual profile of substance misuse in Wales 2013-14. Llywodraeth Cymru; 2014.

⁷ http://www.keepeek.com/Digital-Asset-Management/oecd/social-issues-migration-health/tackling-harmful-alcohol-use_9789264181069-en#page1

14. Mae'r adroddiad diweddaraf hwn gan y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd yn ychwanegu at gorff cynyddol o dystiolaeth genedlaethol a rhyngwladol ynglŷn ag isafbris uned, sy'n cynnwys creu modelau enghreifftiol yn ogystal â thystiolaeth o brofiad gwledydd lle y mae cyflwyno camau i reoli fforddiadwyedd wedi cael effaith gadarnhaol ar niwed a marwolaeth sy'n gysylltiedig ag alcohol.

Cefndir yr Isafbris Uned

15. Ymgynghorodd Llywodraeth Cymru ar yr egwyddor o gyflwyno isafbris uned ar gyfer alcohol yng Nghymru am y tro cyntaf yn rhan o'i hymgyngoriad ar Bapur Gwyn Iechyd y Cyhoedd, "*Gwrando arnoch chi: Mae eich iechyd yn bwysig*"⁸ a gyhoeddwyd ar 2 Ebrill 2014. O'r 145 o ymatebion a ddaeth i law ynglŷn â'r cynnig i sefydlu isafbris uned, roedd y mwyafrif helaeth o blaid cyflwyno deddfwriaeth. Cyhoeddwyd adroddiad cryno ar ymgynghoriad y Papur Gwyn ym mis Tachwedd 2014.⁹

16. Yn 2014, er mwyn casglu tystiolaeth am Gymru yn benodol a chael gwell ddealltwriaeth o effaith bosibl isafbris uned ar gyfer alcohol yng Nghymru, comisiynodd Llywodraeth Cymru Grŵp Ymchwil Alcohol Sheffield ym Mhrifysgol Sheffield i lunio adroddiad ar effaith bosibl ystod o bolisiâu prisio alcohol.

17. Ar 8 Rhagfyr 2014, cyhoeddodd Grŵp Ymchwil Alcohol Sheffield "*Gwerthusiad yn seiliedig ar fodel o isafswm pris uned o alcohol yng Nghymru*"¹⁰ (Model Sheffield). Casglodd yr astudiaeth hon bod nifer o fuddion allweddol i gyflwyno isafbris uned ar gyfer alcohol yng Nghymru, gan gynnwys:

- Byddai polisiâu isafbris uned yn effeithiol wrth leihau'r defnydd o alcohol, niwed sy'n gysylltiedig ag alcohol (gan gynnwys marwolaethau, derbyniadau i ysbytai, troseddau ac absenoldebau o'r gweithlu sy'n gysylltiedig ag alcohol), a'r costau sy'n gysylltiedig â'r niwed hynny. Effaith fach iawn yn unig fyddai isafbris uned yn ei chael ar 'yfwyr cymedrol', byddai effaith fwy ar 'yfwyr risg cynyddol', a byddai'r effaith fwyaf sylweddol ar 'yfwyr risg uchel' (yn enwedig gan fod yr yfwyr hynny'n fwy tebygol o yfed y mathau o alcohol y byddai isafbris uned yn effeithio arnynt); ac
- Amcangyfrifir y byddai economi Cymru ar ei hennill o £882 miliwn yn sgil cyflwyno isafbris uned o 50c ar gyfer alcohol, a hynny o ran

⁸ <http://gov.wales/consultations/healthsocialcare/white-paper/?skip=1&lang=cy>

⁹ <http://gov.wales/consultations/healthsocialcare/white-paper/?skip=1&lang=cy>

¹⁰ <http://gov.wales/statistics-and-research/research-likely-impact-public-attitudes-towards-minimum-unit-price-alcohol/?skip=1&lang=cy>

gostyngiadau mewn salwch, troseddu ac absenoldebau o'r gweithlu dros gyfnod o 20 mlynedd. Mae hon yn effaith grynswth, wedi ei sbarduno gan y ffaith y bydd y bobl hynny sy'n yfed lefelau niweidiol a pheryglus o alcohol yn cael eu heffeithio fwyaf, a'u defnydd hwy o alcohol yn gostwng fwyaf yn nhermau absoliwt.

18. Nid treth mo'r isafbris uned. Ni fyddai'n effeithio ar bob diod - dim ond y rhai sy'n cael eu gwerthu am bris llai na'r isafbris uned a bennir, er enghraifft lager, seidr a gwirodydd rhad a chanddynt gynnwys alcohol uchel. Mae'r fformiwla ar gyfer cyfrifo'r isafbris uned, ynghyd ag enghraifft, yn adran 1 o'r Bil drafft.

Pam yr ydym ni o'r farn y bydd cyflwyno isafbris uned ar gyfer alcohol yng Nghymru yn gwneud gwahaniaeth

19. Mae'r Memorandwm Esboniadol yn cyflwyno tystiolaeth o sawl gwlad sy'n dangos bod gostyngiad yn lefel yr alcohol a gaiff ei yfed o ganlyniad i gynnydd ym mhrisiau alcohol ac - yn hanfodol - mae gostyngiad mewn niwed a marwolaethau sy'n gysylltiedig ag alcohol. O ystyried y cysylltiad cryf rhwng defnydd o alcohol a niwed, a'r dystiolaeth bod fforddiadwyedd yn un o'r ffactorau allweddol o ran cynnydd yn y defnydd o alcohol,¹¹ mae Llywodraeth Cymru o'r farn y dylai deddfwriaeth i gyflwyno isafbris uned ar gyfer alcohol fod yn rhan o raglen ddeddfwriaethol y Cynulliad nesaf.

20. Mae *model Sheffield* yn amcangyfrif y byddai cyflwyno isafbris uned ar gyfer alcohol o 50c yng Nghymru yn arwain at ostyngiad o 53 yn nifer y marwolaethau a gostyngiad o 1,400 yn y derbyniadau i ysbytai fesul blwyddyn. Mae hefyd yn amcangyfrif y byddai economi Cymru ar ei hennill o £882 miliwn yn sgil cyflwyno isafbris uned o 50c ar gyfer alcohol, a hynny o ran gostyngiadau mewn salwch, troseddu ac absenoldebau o'r gweithle dros gyfnod o 20 mlynedd.

21. Mae mwy o dystiolaeth ac ystadegau ar batrymau yfed alcohol ac enghreifftiau o effaith cynhyrchion alcohol yn y Memorandwm Esboniadol, Rhan 2 – yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol.

22. Y llynedd, gofynnodd Llywodraeth Cymru i'w Phanel Cyngori annibynnol ar Gamddefnyddio Sylweddau adolygu'r dystiolaeth ynglŷn ag isafbris uned. Ystyriodd y Panel nifer o astudiaethau ar isafbris uned yn ofalus, yn ogystal â thystiolaeth gan wahanol arbenigwyr yn y maes hwn.

¹¹ 'Independent Review of the Effects of Alcohol Pricing and Promotion, part A', http://www.dh.gov.uk/en/PublicHealth/Healthimprovement/Alcoholmisuse/DH_4001740.

Casglodd adroddiad y Panel, a gyhoeddwyd ym mis Gorffennaf 2014,¹² fod y sail dystiolaeth yn eang ac yn ddibynadwy.

23. Cyngorodd y Panel hefyd *“The effects of Minimum Unit Price would be different for different subgroups of the population: therefore Minimum Unit Price enables those drinking alcohol more harmfully or hazardously to be targeted, with smaller effects on moderate drinkers, particularly those with low incomes. Taking into account all the circumstances and evidence before the panel, minimum unit pricing is an effective mechanism through which alcohol-related harm can be addressed”*.

24. Mae isafbris uned wedi ei gyflwyno'n llwyddiannus yng Nghanada ac mae'n cael ei fabwysiadu fel opsiwn polisi mewn gwledydd eraill. Byddai isafbris uned, yn ôl Panel Cyngori Llywodraeth Cymru ar Gamddefnyddio Sylweddau a gwaith modelu Grŵp Ymchwil Alcohol Prifysgol Sheffield yn dod â buddion iechyd allweddol i Gymru.

Y ddeddfwriaeth newydd arfaethedig

25. Mae'r cynigion ym Mil Drafft Iechyd y Cyhoedd (Isafbris Alcohol) (Cymru) yn ei gwneud yn drosedd i fanwerthwr alcohol gyflenwi, neu awdurdodi cyflenwi, mesur o alcohol am bris sy'n is na'r isafbris uned sydd a bennir ar gyfer alcohol yng Nghymru.

26. Bydd isafbris uned yn berthnasol i fusnesau yng Nghymru wrth iddynt werthu i berson yng Nghymru, gan gynnwys y rheiny sy'n gwerthu alcohol dros y ffôn neu ar-lein. Pan gaiff alcohol ei archebu dros y ffôn neu ar-lein o fanwerthwr yng Nghymru a'i ddanfôn i berson **y tu allan** i Gymru, ni fydd yr isafbris uned yn berthnasol.

Mae'r darpariaethau yn y Bil drafft hefyd yn cynnwys:

- pwerau archwilio i Swyddogion Awdurdodedig awdurdodau lleol i orfodi'r isafbris uned ar gyfer alcohol, gyda phwerau i gyflwyno hysbysiadau cosb benodedig, ac erlyn troseddwr pan fo hynny'n angenrheidiol;
- pwerau mynediad i Swyddogion Awdurdodedig o ran troseddau sy'n ymwneud â rhwystro Swyddog Awdurdodedig yn fwriadol rhag cyflawni ei swyddogaethau o dan y Bil; a
- phwerau i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau i bennu'r isafbris uned ar gyfer alcohol.

¹² Panel Cyngori ar Gamddefnyddio Sylweddau, "Minimum Unit Pricing: A Review of its Potential in a Welsh Context" 2014; t10

27. Mae diben y darpariaethau a amlinellir yn y Bil drafft, a'r effaith y bwriedir iddynt ei chael, wedi'u nodi ym Mhennod 3 y Memorandwm Esboniadol. Mae Nodiadau Esboniadol Manwl ar gyfer pob adran o'r Bil hefyd yn Adran A o'r Memorandwm Esboniadol.

28. Mae'r ddogfen ymgynghori hon yn cynnwys rhai cwestiynau ar y polisi cyffredinol, cwestiynau ynglŷn â phlant a phobl ifanc ac alcohol a'r ddeddfwriaeth arfaethedig hon, a chwestiynau manwl ar yr adrannau penodol o'r Bil drafft.

Cwestiynau Ymgynghori

Dylid darllen y cwestiynau hyn ynghyd â'r Memorandwm Esboniadol a'r gwahanol asesiadau effaith sy'n ystyried hawliau plant, cydraddoldeb a'r iaith Gymraeg.

Polisi Cyffredinol

Cwestiwn 1

Beth yw eich barn am y cynnig i gyflwyno deddfwriaeth a fyddai'n cyflwyno isafbris uned ar gyfer alcohol yng Nghymru?

Ateb: *(dilëwch fel sy'n briodol * a rhowch resymau isod)*

O blaid (Ydw / Nac ydw *)

Ddim yn gwybod *(ticiwch os yw'n briodol)*

(i) A ydych chi o'r farn y bydd y ddeddfwriaeth arfaethedig hon o gymorth i gryfhau'r camau presennol sy'n cael eu cymryd gan Lywodraeth Cymru i leihau defnydd o alcohol a niwed sy'n gysylltiedig ag alcohol?

Ateb: *(rhowch resymau)*

Memorandwm Esboniadol

Mae Llywodraeth Cymru o'r farn y bydd isafbris uned yn elfen hanfodol o'i strategaeth i leihau niwed sy'n gysylltiedig ag alcohol oherwydd ei allu i dargedu arferion yr unigolion sydd fwyaf tebygol o ddioddef salwch a marwolaeth, ac ar yr un pryd, lleihau'r effaith ar yfwyr cymedrol.

Cwestiwn 2

Beth yw eich barn ar y dystiolaeth a gyflwynir yn y Memorandwm Esboniadol?
Er enghraifft,

(a) bod fforddiadwyedd alcohol yn sbardun allweddol o ran faint o alcohol a gaiff ei yfed a'r effeithiau ar niwed sy'n gysylltiedig ag alcohol?

(b) bod isafbris uned wedi ei dargedu'n bennaf at yfwyr niweidiol a pheryglus a yn effaith fach yn unig y byddai'n ei chael ar 'yfwyr cymedrol'?

(c) y byddai isafbris uned o gymorth i achub bywydau, gostwng costau i'n GIG a gwasanaethau cyhoeddus eraill a thros amser, yn gwneud cyfraniad sylweddol i les cyffredinol ac economi Cymru?

(ch) na fyddai isafbris uned yn cynyddu pris pob diod, dim ond pris y rhai hynny a werthir am gyfradd is na'r isafbris uned a bennir ar gyfer alcohol (er enghraifft, 50c)?

(Gweler Rhan 2 – yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol).

Ateb: (rhowch resymau)

Bydd isafbris uned yn berthnasol i fusnesau yng Nghymru wrth iddynt werthu i berson yng Nghymru, gan gynnwys y rheiny sy'n gwerthu alcohol ar-lein neu dros y ffôn. Yn ymarferol, byddai hyn yn golygu:

- Byddai isafbris uned yn berthnasol i unrhyw alcohol a brynir yn bersonol yng Nghymru.
- Lle caiff alcohol a brynir ei ddanfôn at gwsmer ac mae'r drwydded ar gyfer y warws/siop wedi'i dal yng Nghymru, byddai isafbris uned yn berthnasol i'r holl alcohol a ddanfônir i gyfeiriadau yng Nghymru, ond ni fyddai'n berthnasol i alcohol a ddanfônir i gyfeiriadau yn Lloegr.

Ar hyn o bryd, mae'r rhan fwyaf o'r alcohol a gaiff ei brynu ar-lein o fath nad yw'n cael ei dargedu gan y polisi, gan ei fod yn cael ei werthu am bris sy'n uwch na 50c fesul uned, ac felly ni fyddai'r polisi yn cael effaith fawr arno. Fodd bynnag, mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod y gallai hyn ei gwneud yn heriol i rai manwerthwyr yng Nghymru weithredu'r polisi.

Cwestiwn 3

O ystyried y dystiolaeth yn y Memorandwm Esboniadol, beth yw eich barn ar yr effeithiau tebygol, gan gynnwys y costau a'r manteision a allai fod yn gysylltiedig â chyflwyno isafbris uned ar gyfer alcohol o ran:

- (a) defnyddwyr;
- (b) manwerthwyr;
- (c) gwneuthurwyr diodydd;
- (ch) y rhai hynny sy'n prynu neu'n gwerthu gan ddefnyddio gwasanaethau darfon ar-lein neu dros y ffôn;
- (d) awdurdodau lleol;
- (dd) y gwasanaeth iechyd yng Nghymru; a
- (e) grwpiau eraill; gan gynnwys gwasanaethau cyhoeddus eraill yng Nghymru?

Ateb: (*rhowch resymau*)

Cydraddoldebau – effeithiau ar wahanol grwpiau yn y gymdeithas

Cwestiwn 4

O ystyried y dystiolaeth yn y Memorandwm Esboniadol, yr Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb a'r Effaith ar yr Iaith Gymraeg, beth yw eich barn ar yr effaith debygol gan gynnwys y costau a'r buddion sy'n gysylltiedig â chyflwyno isafbris uned ar gyfer alcohol yng Nghymru o ran pobl ar incwm isel?

Ateb: *(rhowch resymau)*

Plant a Phobl Ifanc

Cwestiwn 5

Pa effaith fydd isafbris uned yn ei chael ar blant a phobl ifanc yng Nghymru yn gyffredinol, yn eich barn chi?

(i) A fyddai'r rhain yn effeithiau cadarnhaol neu negyddol neu'r ddau, os felly, beth ydynt?

(ii) A oes dystiolaeth ychwanegol am effeithiau cyflwyno isafbris uned ar gyfer alcohol ar blant a phobl ifanc yr hoffech sôn amdani?

(I gael mwy o wybodaeth gweler yr Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant).

Ateb: (*rhowch resymau*)

Cwestiwn 6

A ydych chi'n cytuno y dylai Llywodraeth Cymru adolygu lefel gychwynnol yr isafbris uned (h.y. 50c) i gynnal ei effeithiolrwydd?

Os felly, pa mor aml?

Ateb: (*rhowch resymau*)

Bil Drafft Iechyd y Cyhoedd (Isafbris Alcohol) (Cymru)

Mae'r cwestiynau ymgynghori canlynol yn ymwneud ag adrannau penodol yn y Bil drafft.

Sylwer, er mwyn deall y Bil drafft yn llawn, mae'n bosibl y byddwch yn dymuno darllen y cwestiynau hyn gyda'r Nodiadau Esboniadol sy'n esbonio ystyr pob rhan o'r Bil yn fanwl.

Rhan 1 – Isafbris uned ar gyfer alcohol

Mae'r adran hon yn nodi'r fformiwla a ddefnyddir i gyfrifo'r isafbris ar gyfer gwerthu alcohol os yw'r pris fesul uned yn 50c, ac yn rhoi enghraifft o sut y cyfrifir y pris hwnnw. Byddai'r isafbris uned yn cael ei adolygu a'i ddiwygio gan reoliadau pe byddai angen.

Y fformiwla yw Isafbris x Cryfder x Cyfaint.

- (a) Yr isafbris yw'r pris isaf a godir fesul uned (i'w bennu gan reoliadau)
- (b) Y cryfder yw cryfder yr alcohol ar ffurf canran
- (c) Y cyfaint yw cyfaint yr alcohol mewn litrau

Mae'r adran hon hefyd yn rhoi cyfrifiad enghreifftiol.

Cwestiwn 7 (Adran 1)

A yw'r fformiwla a'r enghraifft ar gyfer cyfrifo'r isafbris uned ar gyfer alcohol a nodir yn adran 1 o'r Bil drafft yn eglur ac yn hawdd ei ddeall?

Ateb: (*rhowch resymau*)

Adran 2 – Troseddau

Mae'r adran hon yn ei gwneud yn drosedd i fanwerthwr alcohol gyflenwi, neu awdurdodi cyflenwi, alcohol o fangre gymwys yng Nghymru am bris sy'n is na'r isafbris ar gyfer y mesur hwnnw. Mae hefyd yn esbonio beth yw 'mesur', a'r amddiffyniad posibl.

Cwestiwn 8 (Adran 2)

Beth yw eich barn ar y troseddau arfaethedig sy'n gymwys i fanwerthwyr alcohol sy'n cyflenwi neu'n awdurdodi cyflenwi alcohol am bris is na'r isafbris uned?

- (i) A ydych chi'n cytuno y dylai manwerthwyr sy'n gwerthu o siop yng Nghymru am bris sy'n is na'r isafbris uned fod yn euog o gyflawni trosedd?

(ii) Beth yw eich barn ar is-adrannau (3) a (4) sy'n darparu y caiff unigolyn a gaiff ei gyhuddo o drosedd amddiffyn ei hun drwy ddangos ei fod wedi cymryd camau rhesymol i osgoi cyflawni trosedd?

Ateb: *(rhowch resymau)*

Adrannau 3 a 4 – Ystyr cyflenwi alcohol a mangreoedd cymwys ac ystyr manwerthwr alcohol

Mae Adran 3 yn diffinio cyflenwi alcohol yn werthu gan fanwerthwr neu gyflenwi gan neu ar ran clwb i, neu ar orchymyn, aelod o glwb ac yn diffinio "mangre gymwys" dan Ddeddf Trwyddedu'r DU 2003.

Cwestiwn 9 (Adrannau 3 a 4)

Beth yw eich barn ar adrannau 3 a 4 – a oes unrhyw fangreoedd eraill lle y gwerthir alcohol na fyddai wedi eu cwmpasu gan adrannau 3 neu 4?

Ateb: *(rhowch fanylion)*

Adran 5 – Cyflenwi alcohol a nwyddau a gwasanaethau eraill am un pris.

Mae'r adran hon yn gymwys i alcohol a gyflenwir gyda nwyddau (ac eithrio alcohol) neu wasanaethau eraill am un pris. Os caiff alcohol a nwyddau neu wasanaethau eraill eu cyflenwi am un pris, rhaid tybio bod yr alcohol yn cael ei werthu am y pris hwnnw; er enghraifft, os gwerthir pryd o fwyd tri chwrs a photel o win am gyfanswm o £10.00, ystyrir mai £10.00 yw pris y gwin.

Mae Adran 5 hefyd yn darparu os caiff yr alcohol ei gyflenwi am ddim, rhaid tybio bod yr alcohol yn cael ei gyflenwi am yr un pris â'r nwyddau neu'r gwasanaethau eraill; er enghraifft, os yw unigolyn yn prynu pryd o fwyd tri chwrs am £10.00 ac yn cael potel o win am ddim, rhaid derbyn mai £10.00 yw pris y gwin.

Cwestiwn 10 (Adran 5)

A ydych chi o'r farn bod yr adran hon yn cwmpasu trafodion o'r fath yn ddigonol i sicrhau na chaiff alcohol ei gyflenwi am bris is na'r isafbris uned?

(a) Os nad ydych chi, pa enghreifftiau neu sefyllfaoedd eraill y dylid eu cwmpasu?

Ateb: *(rhowch fanylion)*

Adrannau 6 a 7 – Cosbau a Chosbau Penodedig

Mae Adran 6 yn nodi bod manwerthwr alcohol sy'n euog o drosedd o dan adran 2 o'r Bil hwn, o dderbyn collfarn ddiannod, yn agored i ddirwy heb fod yn fwy na lefel 3 ar y raddfa safonol.

Mae Adran 7 yn caniatáu i swyddogion awdurdodedig (*gweler adran 11*) roi hysbysiadau cosb benodedig i bersonau y credir eu bod wedi cyflawni troseddau dan adran 2 yn ardal yr awdurdod leol.

Cwestiwn 11 (Adrannau 6 a 7)

Beth yw eich barn chi ar y cosbau a'r hysbysiadau cosbau benodedig y darperir ar eu cyfer yn adrannau 6 a 7 ac Atodlen y Bil?

Er enghraifft, (a) y cosbau lefel 3, a (b) y gosb benodedig o £200 a'r swm gostyngedig o £150 os telir o fewn 15 diwrnod, yn ogystal â'r cyfnodau talu?

Ateb: (*rhowch fanylion*)

Adrannau 8 a 9 – Camau gorfodi gan awdurdodau lleol a Swyddogion Awdurdodedig

Mae Adran 8(1) yn darparu y caiff awdurdodau lleol ddod ag erlyniad mewn perthynas â throseddau o dan adran 2 yn ei ardal; caiff ymchwilio i gwynion mewn perthynas â throseddau honedig o dan adran 2 yn ei ardal, a chaiff gymryd camau eraill gyda'r bwriad o leihau nifer yr achosion o droseddau o'r fath yn ei ardal.

Mae is-adran (2) yn darparu bod yn rhaid i awdurdod lleol ystyried, o leiaf unwaith bob blwyddyn, i ba raddau y mae'n briodol cynnal rhaglen o orfodi yn ei ardal, a gweithredu rhaglen o'r fath i'r graddau y mae'n eu hystyried yn briodol.

Wrth gydymffurfio ag is-adran (2), rhaid i awdurdodau lleol roi ystyriaeth benodol i wella iechydd y cyhoedd a diogelu plant rhag niwed.

Mae Adran 9 yn egluro bod unrhyw gyfeiriad at swyddog awdurdodedig yn y Bil yn golygu unrhyw unigolyn sydd wedi ei awdurdodi i gynnal swyddogaethau awdurdod lleol.

Cwestiwn 12 (Adrannau 8 a 9)

A ydych chi o'r farn y byddai darpariaethau gorfodi adran 8 yn sicrhau bod isafbris uned yn cael ei orfodi'n effeithiol yng Nghymru?

(i) A ydych chi o'r farn y dylai isafbris uned gael ei orfodi gan awdurdodau lleol yng Nghymru?

(ii) Beth yw eich safbwyntiau ar adran 8(3)(a) a (b) sy'n pennu bod yn rhaid i swyddog awdurdodedig awdurdod lleol roi sylw penodol i ddau amcan, sef gwella iechyd y cyhoedd a diogelu plant rhag niwed wrth gyflawni ei ddyletswyddau?

(iii) Beth yw eich barn ar roi'r pŵer i swyddogion awdurdodedig awdurdodau lleol gynnal profion prynu?

Ateb: (*rhoch resymau*)

Adrannau 11, 12 a 13 – Pwerau mynediad, gwarant i fynd i mewn i anheddau, gwarant i fynd i mewn i fangreoddd eraill.

Mae'r adrannau hyn yn ymwneud â phwerau mynediad swyddog awdurdodedig at ddiben penderfynu pa un a oes cyfryw drosedd wedi ei chyflawni.

Mae adran 12 yn galluogi ustus heddwch lofnodi gwarant, gan felly awdurdodi swyddog awdurdodedig i fynd i mewn i'r annedd, trwy ddefnyddio grym os oes angen, os oes gan swyddog awdurdodedig sail resymol i gredu bod trosedd wedi ei chyflawni o dan adran 2.

Os oes angen mynd i mewn i fangre nas defnyddir yn gyfan gwbl neu'n bennaf fel annedd yn unig, mae'r adran hon yn galluogi ustus heddwch i lofnodi gwarant yn awdurdodi unrhyw swyddog awdurdodedig i fynd i mewn i'r fangre, trwy ddefnyddio grym os oes angen.

Cwestiwn 13 (adrannau 11-13)

Beth yw eich safbwyntiau ar adrannau 11 – 13, sy'n rhoi pwerau i swyddogion awdurdodedig awdurdod lleol fynd i mewn i fangre ar unrhyw amser resymol a chyda gwarant pan fo angen, at ddibenion gorfodi'r isafbris uned?

Ateb: (*rhowch fanylion*)

Adrannau 15 a 16 – Pwerau arolygu etc a Rhwystro etc swyddogion

Pan fydd swyddog awdurdodedig wedi mynd i mewn i fangre, caiff gynnal arolygiadau ac archwiliadau i benderfynu a oes trosedd wedi ei chyflawni o dan adran 2. Gallai hyn gynnwys arolygu ac archwilio'r fangre a chael copïau o ddogfennau, er enghraifft cofnodion cyflenwi a gwerthu.

Cwestiwn 14 (adrannau 15 a 16)

A ydych chi o'r farn bod adran 15 yn rhoi pwerau priodol i swyddogion awdurdodedig i fynd i mewn i fangre at ddibenion penderfynu pa un a oes trosedd wedi ei chyflawni?

(a) Beth yw eich safbwyntiau ar adran 16 – sy'n amlinellu'r amodau ar gyfer trosedd o rwystro swyddog awdurdodedig yn fwriadol rhag cyflawni ei ddyletswyddau?

Ateb: (*rhowch fanylion*)

Atodlen – Cosbau Penodedig

Cwestiwn 15 – Atodlen i'r Bil

Mae'r Atodlen i'r Bil yn cynnwys manylion y cosbau penodedig, gan gynnwys y cyfnod ar gyfer talu, y swm gostyngedig yn ogystal â threial a thynnu hysbysiadau yn ôl. Beth yw eich safbwyntiau ar gynnwys yr Atodlen?

Ateb: (*rhowch fanylion*)

Unrhyw sylwadau eraill yn ymwneud â'r Bil drafft

Cwestiwn 16

A oes gennych unrhyw sylwadau eraill ar unrhyw adrannau yn y Bil drafft neu unrhyw safbwyntiau eraill ar y darpariaethau yn y Bil yn gyffredinol?

Ateb: (*rhowch fanylion*)

**Ffurflen Ymateb
i'r
Ymgynghoriad**

Eich enw:

Sefydliad (os yw'n berthnasol):

e-bost / rhif ffôn:

Eich cyfeiriad:

Mae'n debygol y bydd ymatebion i ymgynghoriadau ar gael i'r cyhoedd, ar y rhyngrwyd neu mewn adroddiad. Os yw'n well gennych i'ch ymateb aros yn ddi-enw, ticiwch yma:

☐